

Straeon o lygad y ffynnon

Ar gyfer ein cefnogwyr gwerthfawr

Haf 2024



ELLISON

Pan mae plant yn dod ynghyd yn Hope House a Tŷ Gobaith maen nhw'n cael amser gwerth chweil gan chwerthin llond eu boliau. Mae ein nyrsys wedi ymrwymo i'w helpu i fyw eu bywyd i'r eithaf, gan greu atgofion melys iddyn nhw a'u teuluoedd eu trysori.

Yn y Grŵp Sunshine, sy'n enw addas dros ben, mae cyfle i blant ieuengach gyda chyflyrau sy'n peryglu eu bywydau a'u teuluoedd ddod at ei gilydd yn Hope House pob wythnos.

Byddan nhw'n gwneud ffrindiau, mae cymorth ar gael gan ein tîm gofal ac arbenigwyr mewn meysydd megis rheoli symptomau a ffisiotherapi, ac mae cyfle i bawb ymlacio a thrafod y pethau hynny sy'n peri'r mwyaf o bryder iddyn nhw.

Mae ein Swyddog Cymorth Gweithgareddau Mel ac ein Therapydd Galwedigaethol, Emma yn cynnal y grŵp ac yn ymfalchïo mewn

dod o hyd i wahanol weithgareddau sy'n rhoi boddhad i blant a theuluoedd, o nofio therapiwtig i sesiynau cerddoriaeth a chrefft, ynghyd â theithiau allan i'r traeth ac ymweliadau gan anifeiliaid ecsotig.

“Mae'r plant wedi ffynnu o ganlyniad i fynychu'r sesiynau'n rheolaidd, wedi gwneud ffrindiau gyda'i gilydd a mwynhau gwahanol brofiadau,” eglurodd Mel.

“Mae rhieni a gofalgwyr yn mwynhau treulio amser yn sgwrsio gyda'i gilydd, rhannu eu profiadau, a thrafod eu pryderon, ac mae llawer wedi mynd ati i wneud ffrindiau a chwrdd y tu hwnt i'r

grŵp. Maen nhw'n mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'u plant gan ddysgu am syniadau y gallan nhw eu rhoi ar waith adref ynghyd â gwneud atgofion yn ystod y sesiynau.”

Daeth Ellison (uchod) a'i fam Olivia i'r Sunshine Group am y tro cyntaf i gwrdd â phlant a theuluoedd eraill a oedd yn byw bywydau tebyg iddyn nhw.

Roedden nhw wedi bod yn cysgodi yn eu cartref yn ystod y cyfnod clo ac roedden nhw'n teimlo'n eithaf unig. Ar ôl dod i Hope House mae'r ddau ohonyn nhw wedi gwneud llawer o ffrindiau.

Parhau drosodd

hosbisau plant
hope house tŷ gobaith

Rhif elusen gofrestredig: 1003859

Dywedodd Olivia: “Mae Ellison yn teimlo’n gyfforddus yma sy’n gymorth imi ymlacio hefyd. Mae’r pythefnos diwethaf yma wedi bod yn anodd iawn felly mae gallu siarad am hynny gyda phobl sydd wir yn deall yn help mawr. Mae Ellison wrth ei fodd yn y pwll hefyd – rydym yn ei alw’n ddiwrnod sba oherwydd mae’n ei helpu i ymlacio am weddill y dydd.”

Bu i Noah (isod) ymweld â’r Sunshine Group tra’r oedd yn aros am ofal seibiant yn Hope House. Cafodd gyfle i nofio am y tro cyntaf hefyd, gyda’i fam Lucy a’i frawd bach Chester.

“Mae gan Noah gyflwr prin ar ei gyhyrau ac roedd yn amlwg ei fod yn cael modd i fyw yn y dŵr – roeddem ni i gyd yn mwynhau ac roedd yn brofiad arbennig. Rydym wrth ein bodd yn dod yma oherwydd mae’n gartrefol iawn, mae’r staff gofal yn groesawgar dros ben ac yn teimlo fel ffrindiau,” dywedodd Lucy.



NOAH, LUCY A CHESTER

Mae Halli-Rose (isod) yn dod i’r Sunshine Group yn rheolaidd gyda’i mam Georgia a’i thad Jordan.

Dywedodd Georgia: “Mae’n brofiad anhygoel dod yma oherwydd mae pawb wedi arfer gweld a threulio amser gyda phlant sydd â chyflyrau cymhleth felly rydym yn gyfforddus a gallwn ymlacio. Bu inni ddod â chwaer hŷn Halli-Rose i’r Sunshine Group hefyd i’w helpu i ddeall bod yna blant eraill sy’n wahanol hefyd.”



HALLI-ROSE



AXEL A RHIANNON

Mae Axel a’i fam Rhiannon (uchod) wedi bod yn dod yma ers iddo gael ei eni. Mae Axel wedi cael llawdriniaeth ar ei galon eisoes ac mae’n aros am ail lawdriniaeth ar hyn o bryd.

Dywedodd Rhiannon: “Mewn rhai grwpiau babanod gallwch deimlo fel bod pobl yn eich barnu gan nad oes modd i’ch babi chi wneud y pethau y mae babanod eraill yn eu gwneud. Yma, mae pawb yn llawn cydymdeimlad ac mor gefnogol o gerrig milltir personol pob plentyn – maen nhw’n ymddangos fel camau bach iawn i rai pobl ond yma mae pawb yn deall ac yn dathlu gyda’i gilydd. Mae’r grŵp wedi hybu hyder pob un ohonom i fod yn ni’n hunain.”



ESMAY

Mae Esmay (uchod) a’i mam Kim wedi bod yn dod i’r Sunshine Group ers ei sefydlu dwy flynedd yn ôl. Erbyn hyn mae’n rhan bwysig o’u bywydau ac maen nhw’n edrych ymlaen at ddod yma pob dydd Mercher.

Dywedodd Kim: “Unwaith inni gamu trwy’r giât mae Esmay yn cyffroi yn ei sedd car. Mae’n achubiaeth gallu dod yma pob wythnos a siarad gyda’r staff a rhieni eraill sy’n gallu uniaethu â’ch sefyllfa. Dydyn nhw ddim yn syllu a dydyn nhw ddim yn barnu’ch plentyn fel sy’n digwydd yn y byd tu allan o bryd i’w gilydd.”



LUKE

Fel yr holl ofal rydym yn ei gynnig, mae’r grŵp Sunshine ond ar gael oherwydd eich cymorth chi.

Gofynnwn yn garedig ichi ein helpu i gynllunio tua’r dyfodol a pharhau i fod yma ar gyfer plant megis Ellison, Noah, Halli-Rose, Axel, Esmay a Luke drwy gymryd rhan yn ein Raffl Heulwen yr Haf (manylion gyferbyn) neu gyfrannu tuag at ein Hâpel Heulwen ar-lein yma hopehouse.org.uk/sunshine

DEWCH I YMWELD Â'N SIOP FLAENLLAW NEWYDD YNG NGHROESOSWALLT

Ar adeg cyhoeddi'r newyddlen hwn, roedden ni wrthi'n cau pen y mwdwl ar y gwaith paratoi yn ein siop flaenllaw newydd yng nghanol Croesoswallt yn barod am ei agoriad mawreddog.

Mae'r siop newydd, mewn adeilad ar Stryd Smithfield lle'r oedd Argos gynt, yn dair gwaith maint ein siop flaenorol yng Nghroesoswallt yn English Walls gerllaw. Yn ogystal â gwerthu ein hystod arferol o nwyddau ail-law a newydd gan gynnwys dillad i ferched ac eitemau'r cartref, bydd y siop flaenllaw hefyd yn gwerthu dodrefn.

Rydym yn awyddus i glywed gan unrhyw un sydd â dodrefn ac eitemau'r cartref o safon yr hoffan nhw eu cyfrannu.

Gallwn drefnu casgliadau am ddim yng Nghroesoswallt a'r fro ar-lein ar hopehouse.org.uk/furniture neu drwy ffonio'r tîm manwerthu ar 01691 672607.

Buom yn apelio am ragor o wirfoddolwyr i'n helpu i gynnal y siop, gyda lluo o gyfleoedd ar gael o drefnu nwyddau wedi'u rhoddi, i atgyweirio ac uwchgylchu, tynnu lluniau o eitemau i'w cyflwyno ar eBay ac addurno'r ffenestri. Bu i ddwy o'n gwirfoddolwyr sydd wedi cynnig eu gwasanaeth am y cyfnod hiraf yng Nghroesoswallt, Diane a Mary hefyd ymddangos mewn ymgyrch poster fel rhan o'n hymgyrch recriwtio.



GWIRFODDOLWYR CROESOSWALLT DIANE A MARY

Dywedodd ein pennaeth manwerthu, Suzanne: "Rydym yn falch dros ben o fod yn buddsoddi yng Nghroesoswallt ar hyn o bryd ac yn hyderus, oherwydd y cymorth anhygoel yn yr ardal hon, bydd symud i'r lleoliad newydd yn ein helpu i godi hyd yn oed mwy o arian i ariannu ein gwasanaethau annatod ar gyfer plant lleol sydd â chyflyrau sy'n peryglu eu bywydau a'u teuluoedd."

Bu inni hefyd fwrw iddi i weddnewid ein siopau gwych ar Ffordd Oteley yn Amwythig a'r Trallwng yn y misoedd diwethaf ac yn ôl ein cefnogwyr a'n gwirfoddolwyr maen nhw'n edrych yn arbennig!

Galwch heibio'r tro nesaf y byddwch chi yn yr ardal – chewch chi ddim eich siomi!

GWOBWR 1AF
£3,000

2IL WOBR
£1,000

Raffl Heulwen yr Haf

DYDDIAD TYNNU'R RAFFL
Dydd Mercher, Mehefin y 19eg 2024

Gallwch brynu tocynnau ar-lein yma
hopehouse.org.uk/raffle

DIM OND £1 Y TOCYN

3YDD WOBR
£500

4YDD WOBR
£250

5ED WOBR
£250

P'UN AI YDYCH CHI'N CYFRANNU ARIAN, YN CODI ARIAN, YN CHWARAE EIN LOTERI, YN CYFRANNU TUAG AT EIN SIOPAU NEU'N GWIRFODDOLI, RYDYCH CHI'N MEDDWL Y BYD INNI

YN 2023 GYDA DIOLCH ICHI, FE WNAETHON NI LWYDDO I GODI:



£1,200,000
yn ein siopau



£1,800,000
drwy godi arian



£1,300,000
gan y rheiny sy'n
chwarae ein loteri



£1,500,000
o roddion anhygoel
mewn ewyllysiau



£185,000
o roddion misol
rheolaidd

614 o wirfoddolwyr ymroddgar wedi cyfrannu dros **84,000** o oriau

o'u hamser medrus i helpu yn ein hosbisau, siopau ac mewn digwyddiadau codi arian

Mae 84 ceiniog ym mhob punt y
mae'r hosbisau'n ei wario yn mynd tuag
at ddarparu gofal a chymorth i'r plant
mwyaf bregus yn ein cymunedau

Bu i'ch cyfraniadau ariannu
42 wythnos o ofal - bu i gyllid
statudol dalu am ddim ond 10
wythnos yn unig.

Bu inni allu cynnig ein holl ofal arbenigol a chymorth ar gyfer plant sydd â chyflwr sy'n peryglu eu bywydau

GYDA DIOLCH ICHI!

**236**
o blant

gyda chyflyrau sy'n peryglu eu bywydau
**wedi derbyn y cymorth
angenrheidiol ar adeg
dyngedfennol**

171 
o blant wedi aros

yn Hope house a Tŷ Gobaith am
2,778 noson
o ofal seibiant wedi'i drefnu
a **333 noson**
o ofal brys ac mewn argyfwng (heb ei gynllunio)


1,307

**o blant wedi mwynhau
sesiynau therapi** yn
Hope House a Tŷ Gobaith,
gan gynnwys ffisiotherapi,
chwarae synhwyraidd a nofio


42

o fabanod gafodd
ddiagnosis o gyflwr sy'n
peryglu eu bywydau cyn neu
ar ôl eu geni wedi derbyn
cymorth gan ein nyrsys


171

o frodyr a chwiorydd wedi
manteisio ar ein Gwasanaeth
**Cymorth i Frodyr a
Chwiorydd**




56

o blant a fu farw
lle bu i'w teuluoedd
dderbyn gofal holistig


1,812

**o sesiynau cwnsela a
chymorth profedigaeth**
wedi helpu teuluoedd yn ystod
salwch eu plentyn, neu yn dilyn
marwolaeth eu plentyn


85

o deuluoedd mewn
profedigaeth wedi helpu
teuluoedd yn ystod salwch
eu plentyn, neu yn dilyn
marwolaeth eu plentyn yn ein
**Digwyddiadau Coffa
arbennig**

Diolch yn fawr iawn

CWRDD Â'N MASGOTIAID



Rydym yn llawn cyffro i gyflwyno Hipo Hope House a Theigr Tŷ Gobaith sy'n edrych ymlaen yn arw at gwrdd â'n holl gefnogwyr gwych.

Byddan nhw'n smart dros ben yn eu gwisgoedd hanfodol Tîm Gofal gan ymweld â'r gymuned ynghyd ag ein siopau a digwyddiadau codi arian.

Maen nhw'n gyfeillgar dros ben ac wrth eu bodd yn ymddangos mewn hunluniau, felly os welwch chi nhw, cofiwch fynd atyn nhw i gyflwyno'ch hunain!

COFIWCH YCHWANEGU CYMORTH RHODD

Helpwch ni i hawlio

25%
ychwanegol

ar eich cyfraniadau

cofiwch ychwanegu cymorth rhodd

Wyddoch chi os ydych chi'n drethdalwr yn y DU, gallwch chi gynyddu gwerth eich cyfraniad o 25% heb unrhyw gost ichi'ch hun drwy arwyddo datganiad Cymorth Rhodd. Mae hynny'n 25c yn ychwanegol am bob £1 byddwch chi'n ei gyfrannu!

Os ydych chi'n anfon cyfraniad drwy'r post neu'n cyfrannu ar-lein, ewch ati i roi tic yn y blwch Cymorth Rhodd a bydd modd inni hawlio Cymorth Rhodd am gyfraniadau blaenorol (hyd at bedair blynedd) a chyfraniadau yn y dyfodol hefyd. Os ydych chi'n bwriadu mynd â'ch eitemau ail-law i'n siopau, gofynnwch i'n staff sut i ychwanegu cymorth rhodd atyn nhw hefyd.

LLYSIAU CARTREF AR Y FWYDLEN!

Mae'r plant yn Hope House yn edrych ymlaen at fynd ati i dyfu a bwyta eu ffrwythau a'u llysiau eu hunain yn yr haf.

Bu ein garddwr, Luke, yn gweithio ar brosiect gwych i glirio llain o laswellt ger y pwll hydrotherapi er mwyn creu gardd gegin yno.

"Bydd yn gwbl addas i'r holl blant, gyda gwelyau plannu uchel sy'n symud ac mae modd eu cyrraedd o gadeiriau olwyn, ynghyd â thŷ gwydr gyda drws bob pen felly gallai'r plant hynny sy'n gorfod aros yn eu gwelyau ymuno yn yr hwyl hefyd," eglurodd.

"Rydym wedi derbyn cymorth anhygoel gan fusnesau lleol felly dydyn ni heb orfod talu unrhyw beth am y prosiect hyd yma. Rwy'n gobeithio hefyd y bydd modd inni fanteisio ar roddion o hadau ffrwythau a llysiau a phlanhigion yn ogystal."

Diolch o'r galon i bawb sydd wedi helpu gyda'r gwaith tir hyd yn hyn, gan gynnwys: Evans Construction, Evans Aggregates, TG Builders Merchants, PG Skips, Select a Skip, Jewsons Croesoswallt, DNT Group, Ridgeway Rentals Ltd a Breedon.



LUKE

LLE TAWEL A CHYSURUS I FFARWELIO



Y TÎM PROSIECT AR SAFLE'R ESTYNIAD

Rydym ar fin bwrw iddi gyda gwaith ar estyniad i Ty Gobaith er mwyn creu ystafell unigryw lle gellir nyrsio plant ar ddiwedd eu hoes, ac er mwyn gofalu am eu teuluoedd yn ogystal.

Bu i rieni mewn galar sydd wedi derbyn cymorth gan yr hosbisau helpu llywio'r prosiect drwy gynnig adborth am eu profiadau personol nhw ac awgrymu syniadau ar gyfer y cynllun a'r nodweddion.

Eglurodd ein rheolwr prosiectau, Polly: "Dyweddodd rhieni wrthym ni eu bod nhw wirioneddol yn teimlo cysur yn y golygfeydd a'r ardal o amgylch Tŷ Gobaith a byddai'n wych pe bai modd manteisio arnyn nhw o'r ystafell diwedd oes yn ogystal, ynghyd â lleoliad braf a thawel i ffarwelio."

Unwaith y bydd wedi'i gwblhau, bydd ystafell wely eang i blentyn ynghyd â man eistedd cyfforddus i deuluoedd gyda ffenestri gwydr sylweddol ar hyd y ddwy ochr, uwchlaw golygfeydd godidog yr aber a'r gerddi. Bydd ystafell ymolchi sylweddol ac addas i bawb hefyd ynghyd ag 'ystafell glinigol' ar wahân lle gallai'r staff baratoi meddyginiaethau a thriniaethau.



ARGRAFF ARLUNYDD

Bydd yr ystafell newydd ger y ddwy ystafell wely presennol, y gallai aelodau'r teulu eu defnyddio.

Bydd cost yr ystafell newydd oddeutu £550,000 ac mae wedi'i ariannu drwy gyfraniadau hael gan gynnwys y Loteri Genedlaethol, Sefydliad Albert Gubay, Sefydliad Moondance a Chronfa Build a Legacy Morrisons.

GALLWN GEFNOGI'R HOLL RIENI SYDD MEWN GALAR

Mae ein tîm cwnsela medrus yn cynnig cymorth i'r holl blant a theuluoedd sy'n defnyddio ein hosbis, ond wyddoch chi fod modd inni gynorthwyo teuluoedd yn y gymuned ehangach sydd wedi colli eu plentyn yn ogystal?

Trwy rwydwaith o gwnselwyr cymwys BACP (Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain), rydym yn cynnig cwnsela rhad ac am ddim a chyfrinachol i unrhyw aelod agos o deulu sydd wedi'u heffeithio gan farwolaeth babi, plentyn neu berson ifanc hyd at 18 oed pan fuon nhw farw.

Mae'r cymorth hwn ar gael o dri mis i hyd at bum mlynedd

ar ôl marwolaeth rhywun annwyl iddyn nhw, ac i unrhyw un sy'n byw yn ein dalgylch yn Swydd Amwythig, Swydd Gaer, Canolbarth a Gogledd Cymru.

Ar hyn o bryd rydym yn cynnig cwnsela wyneb yn wyneb yng Nghroesoswallt, Conwy, Amwythig, Telford, Wrecsam a Dinbych. At hyn, rydym yn cynnig cwnsela ar-lein dros Zoom ac yn bwriadu cyflwyno cwnsela drwy gyfrwng y Gymraeg.

I wybod mwy, ewch i hopehouse.org.uk/bereavement-counselling neu ffoniwch ein Gweinyddwr Llwybrau ar 01492 554443.

COFRESTRWCH RŴAN

AR GYFER Y DIGWYDDIADAU ANHYSOEL HYN SYDD AR Y GWEILL AR GYFER 2024



Her Beicio



Awst
yr 11eg

Ras Hwyaidd Harry



Medi'r
1af

**Cerdded Ar hyd
Adenydd Awyren**



Medi'r
12fed

Wythnos Bwyta Cacen



MAI'R
20fed – 26ain

Clasuron yn y Coleg MEHEFIN
y 1af

**Gloddest
Nosweithiau Arabaidd**



MEHEFIN
y 15fed

**Taith Machlud
Yr Wyddfa**

GORFFENNAF
y 27ain



Plymio o'r Awyr Medi'r
28ain

Rhedeg Gyda'r Nos yn y Hydref
y 19eg

**Rhedeg Gyda'r
Nos yn Telford
a Chonwy**



Hydref
y 26ain

Oriau Gwerthfawr Tachwedd
yr 17eg a'r 18fed

Gallwch ddod o hyd i'n holl fanylion ar
hopehouse.org.uk/events

YR ANRHEG GORAU OLL

Mae Rhoddion mewn Ewyllysiau'n ariannu bron i hanner y gofal hanfodol rydym yn ei gynnig i blant a theuluoedd. Mae ein dyfodol ni yn eich dwylo chi.

hopehouse.org.uk/wills

MYLES